# Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau

**06 Rhagfyr 2023**

**Yn Bresennol:** Mrs S Hoss (Cadeirydd)
Cynghorydd D Clements, Mrs J James, Cynghorydd M James, Dr R Plummer, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd R Jordan.

**Hefyd yn bresennol:** Miss G Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd) a Mrs C Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd).

(Cyfarfod Rhithiol: 2.00pm – 2:43pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd A Wilcox.

**2. Datgan Buddiannau**
Gwnaeth Dr RM Plummer ddatganiad fel Uwch Aelod Annibynnol Llywodraeth Cymru ar Benodiadau Cyhoeddus ond arhosodd yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr RM Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**
Nodwyd y cofnod gweithredu.

**Nodwyd.**

**5. Diweddariad ar Gefnogi a Datblygu Aelodau**
Croesawodd y Cadeirydd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a gyflwynodd ddiweddariad ar faterion oedd yn ymwneud â Chefnogi a Datblygu Aelodau gan gynnwys Asesiadau Perfformiad Llywodraeth Cymru, Adolygiadau o Ddatblygiad Personol, Cynllun Hyfforddi Aelodau, Hyfforddiant Llywodraeth Cymru, Presenoldeb Aelodau, a Seminar Aelodau Cymru 2024.

A) Asesiadau Perfformiad Llywodraeth Cymru / Adolygiadau o Ddatblygiad Personol / Cynllun Hyfforddi

O ran Asesiadau Perfformiad Llywodraeth Cymru a’r Adolygiadau o Ddatblygiad Personol, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad pellach ynghylch y ffigurau cwblhau hyfforddiant, a chadarnhaodd y byddai'n dosbarthu e-bost at yr Aelodau perthnasol yn y flwyddyn newydd i’w hatgoffa i lenwi eu hadolygiad. Ychwanegwyd, gyda mwy o ymatebion, y byddai'r Swyddog yn parhau i ddatblygu’r cynllun hyfforddi Aelodau gyda'r nod o'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau.

Yn dilyn trafodaeth a gynhaliwyd yn y cyfarfod blaenorol, cadarnhaodd y Swyddog na fyddai disgwyl i’r Aelodau oedd wedi cwblhau Hyfforddiant Seiberddiogelwch Cyngor Sir Penfro (CSP) hefyd gwblhau'r Hyfforddiant Seiberddiogelwch a ddarperir gan yr Awdurdod. Ychwanegwyd y byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud yn y dyfodol i leihau dyblygu cyrsiau hyfforddi rhwng CSP a'r Awdurdod. At ddibenion cofnodi, gofynnwyd i'r Aelodau roi gwybod i’r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd unwaith y byddent wedi cwblhau cwrs hyfforddi perthnasol Cyngor Sir Penfro.

Er mwyn annog presenoldeb, awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnwys Hyfforddiant Aelodau fel eitem reolaidd ar yr agenda mewn cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn rhoi cyfle i drafod hyfforddiant a gynhaliwyd yn ddiweddar ynghyd â manylion ynghylch sut y gallai Aelodau gael hyd i’r hyfforddiant, ar gyfer y rhai nad oedd eto wedi cael cyfle i wneud hynny, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Dywedodd Aelod, er mwyn deall effaith yr hyfforddiant a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y byddai'n ddefnyddiol cael crynodeb o ymatebion yr Aelodau yn eu Hadolygiad o Ddatblygiad Personol a'u barn ar yr hyfforddiant yr oeddent wedi'i gwblhau. Cytunodd y Swyddog i gyflwyno’r wybodaeth hon i'r cyfarfod nesaf.

B) <u>Hyfforddiant Llywodraeth Cymru</u>
Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am ddyddiadau ac amseroedd y tair sesiwn o Hyfforddiant Llywodraeth Cymru, a chadarnhaodd y Swyddog bod mwy o wybodaeth am gynnwys y sesiynau wedi dod i law yn ddiweddar ac y byddai'n dosbarthu’r wybodaeth honno i'r Aelodau.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y diffyg ymgynghori â’r Aelodau gan Lywodraeth Cymru ynghylch cynnwys yr hyfforddiant a chytunwyd y byddai adborth ar yr hyfforddiant yn cael ei goladu i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

C) <u>Presenoldeb Aelodau</u>
Dywedwyd bod presenoldeb yr Aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi yn 53% oedd yn gynnydd ar y gyfradd presenoldeb o 50% a welwyd yn y chwarter blaenorol. Gofynnodd Aelod a oedd presenoldeb yn cael ei gofnodi ar gyfer Aelodau nad oedd yn gallu mynychu gweithdai neu

sesiynau hyfforddi ond oedd wedi gwylio recordiad wedi hynny. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd nad oedd yr Aelodau oedd yn gwylio recordiadau o sesiynau hyfforddi neu weithdai wedi'u cynnwys yn y ffigurau presenoldeb ar hyn o bryd gan nad oedd gan y tîm unrhyw ffordd o wybod a oedd yr Aelodau wedi cwblhau'r hyfforddiant hwnnw oni bai bod yr Aelod ei hun yn hysbysu'r Awdurdod. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â ffyrdd o gofnodi'r cyfranogiad hwn i sicrhau nad oedd presenoldeb yn cael ei dan-gofnodi a chytunodd y Swyddog i drafod y mater gyda'r adran technoleg gwybodaeth i ddeall beth ellid ei wneud.

D) Seminar Aelodau Cymru 2024
Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad ar y Seminar, a chafwyd trafodaeth ynglŷn â'r gwersi a ddysgwyd o Seminarau'r gorffennol a rhannwyd barn yr Aelodau ar ffyrdd y gellid gwella'r Seminar.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd, gofynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd am i farn yr Aelodau ar thema'r Seminar nesaf gael ei chyflwyno drwy neges e-bost erbyn diwedd Ionawr 2024. Cadarnhawyd y byddai diweddariad pellach ar y mater yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

Dywedwyd bod Prif Weithredwr yr Awdurdod yn bwriadu gwahodd y Gweinidog Newid Hinsawdd i siarad yn y Seminar, ac awgrymodd yr Aelodau siaradwyr gwadd posibl eraill a nodwyd gan y Swyddog.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2024 heb eu diwygio. |